# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWASANAETHAU YSGOLION

## CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYMUNEDOL TALYBONT

## 4.00 – 4.55 PM, 07 TACHWEDD 2024

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol (Hybrid):** | Bethan Davies (Cadeirydd), Sara Hughes, Rhian Nelmes, Catrin M S Davies, Stuart Whincup, Siwan Evans, Hefin Jones (Pennaeth).<br>Delyth Davies (Cyfieithydd). |
| **Clerc:** | Pauline Lucas |

| Cofnod o Drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| **1** | **YMDDIHEURIADAU:** | | |
| | Cyflwynwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Helen Ovens a Cathryn Lloyd-Jones. Roedd y cyfarfod mewn cworwm felly parhaodd y trafodaethau. | | |
| **2i** | **DATGAN BUDDIANT / CYFRINACHEDD / EGWYDDORION YMDDYGIAD** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau**:** | | |
| | a) | o'r angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod; y caiff pob buddiant sy'n cael ei ddatgan ei nodi yn y cofnodion; | |
| | b) | bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus; | |
| | c) | o'r Egwyddorion Ymddygiad a lofnodwyd ar adeg eu henwebu i rôl Llywodraethwr ac sydd ar gael ar Teams er gwybodaeth. | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi'r uchod. | | |
| **2ii** | **PENODI CADEIRYDD:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** ail-benodi Bethan Davies fel Cadeirydd ac i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Estynnwyd ddiolch i Bethan am ei chefnogaeth a'i gwaith caled. | | |
| **2iii** | **PENODI IS-GADEIRYDD:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** ail-ethol Cathryn Lloyd Williams fel Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2024/2025. | | |
| **2iv** | **AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHU**: | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi bod swydd wag ar gyfer Llywodraethwr Staff. | | |

| Cofnod o Drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| **2v** | **COFNODION:** | |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15.07.2024. Byddai'r Cadeirydd yn eu llofnodi ac yn danfon copi at Adran y Llywodraethwyr. | |
| **2vi** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION:** | |
| | **PENDERFYNWYD** ychwanegu enw Heledd Davies (cyfieithydd) i'r rhestr o'r rheiny oedd yn bresennol. | |
| **2vii** | **COFNODION PWYLLGORAU:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi nad oedd unrhyw bwyllgorau wedi cwrdd ers y cyfarfod diwethaf. | |
| **2viii** | **PWYLLGORAU'R CORFF LLYWODRAETHU:** | |

**PENDERFYNWYD** penodi'r canlynol fel Aelodau'r Pwyllgor gan fabwysiadu'r Cylch Gorchwyl sydd eisoes ar gael ar Teams:

| **Disgyblu a Diswyddo Staff** | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| 2 Riant Lywodraethwr, Llywodraethwr Cymunedol | Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr ALl, Rhiant Lywodraethwr |

| **Disgyblaeth a gwahardd disgyblion** |
|---|
| Cadeirydd, Llywodraethwr Cymunedol, Rhiant Lywodraethwr |

| **Penodi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth** |
|---|
| Rhwng 3-7 Aelod |

| **Rheoli Perfformiad a Medusrwydd Pennaeth** | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Cadeirydd + 1 Aelod | Is-gadeirydd, Helen Ovens |

| **Adolygiad Cyflog** | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Cadeirydd, Stuart Whincup, Rhian Evans | Is-gadeirydd, Catrin M S Davies, 1 aelod |

| **Cwynion** |
|---|
| Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr ALl, Rhiant Lywodraethwr |

| **Achwyniad Staff** | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Is-gadeirydd + 2 Aelod | 3 Aelod |

| **Diswyddiadau** | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyntaf** | **Apêl** |
| Isafswm o 3 aelod | Isafswm o 3 aelod |

| Cofnod o Drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | Gweithredir gan*: |
|---|---|

**Staffio, Perfformiad a'r Cwricwlwm**

| Cyfarfod Cyntaf | Apêl |
|---|---|
| 7<br>Staffio a phersonél: lleiafswm o 3<br>Penodi staff addysgu: Pennaeth + 2 Penodi<br>Staff Cymorth: 1 neu fwy | Yr un nifer a oedd yn delio â'r mater cychwynnol |

| Lles |
|---|
| Pennaeth, Stuart Whincup + 1 aelod |

| Ymgysylltu â'r Gymuned |
|---|
| Pennaeth + 2 aelod |

| | | |
|---|---|---|
| **2ix** | **CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR:** | |
| | PENDERFYNWYD penodi'r llywodraethwyr canlynol am y cyfrifoldebau isod: | |

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Bethan Davies |
| Is-gadeirydd | Cathryn Lloyd Williams |
| Amddiffyn Plant / Rhianta Corfforaethol / E-ddiogelwch | Bethan Davies |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | Siwan Evans |
| Cytundeb llwyth gwaith | Catrin M S Davies |
| Hyfforddiant – Sefydlu - Fforwm | Rhian Nelmes |
| Chwythu'r chwiban | Cathryn Lloyd Williams |
| Presenoldeb | Rhian Evans |
| Siarter y Gymraeg | Rhian Evans |
| Hyrwyddwr Staff Cymorth | Rhian Nelmes |
| Hyrwyddwr Amrywiaeth | Catrin M S Davies |

**CYFRIFOLDEBAU'R CWRICWLWM:**

| | |
|---|---|
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Rhian Nelmes |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Cathryn Lloyd Williams |
| Dyniaethau | Helen Ovens |
| Celfyddydau Mynegiannol | Catrin M S Davies |
| Mathemateg a Rhifedd | Siwan Evans |
| Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg | Bethan Davies |
| Iechyd a Lles / Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Stuart Whincup |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2x** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I RIENI 2023-2024:** | | |
| | Atgoffodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau: | | |
| | a) | Gofyniad ar i'r Cadeirydd baratoi adroddiad blynyddol ac roedd templed ar gael ar Teams; | |

| Cofnod o Drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| | b) | Nad oedd gofyniad i drefnu cyfarfod â'r Rhieni ond roedd angen hysbysu Rhieni o'u hawl i wneud cais am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94. | |
| | c) | **PENDERFYNWYD** nodi bod yr adroddiad eisoes ar gael i'r Aelodau. | |
| **3i** | **ADRODDIAD Y PENNAETH:** | | |
| | Roedd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes ar gael i'r Aelodau. Cafwyd trafodaeth ar y canlynol: | | |
| | a) | **Cyllid:** Byddai gwarged disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd gostyngiad disgwyliedig yn nifer y disgyblion. Roedd yr Ysgol yn cael ei marchnata i ddisgyblion newydd posib a rhoddwyd taflen A5 er mwyn casglu barn cyn cael ei chyhoeddi.<br>Gallai'r daflen fod ar gael i fusnesau lleol a'i chyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>**Monitro**: Roedd llwyth gwaith wedi cael ei drafod gyda'r staff. Nodwyd y byddai blaenoriaethau'r CDY yn cael eu rhannu ymhlith staff y ddwy ysgol.<br>Bydd cyfrifoldebau'r llywodraethwyr fel a ganlyn:<br>Rhifedd – Siwan Evans<br>Ieithoedd – Rhian Nelmes<br>Annibyniaeth – Bethan Davies. | |
| | b) | **Canllawiau Cludiant Ysgol**: Oherwydd camddealltwriaeth ynghylch disgyblion oedd yn teithio ar gludiant ysgol ar ddiwedd y dydd, roedd y Pennaeth wedi creu dogfen ganllaw gyda mewnbwn gan Staff, Llywodraethwyr a Swyddogion yr ALl.<br>Bydd y ddogfen, unwaith y bydd wedi'i chwblhau'n derfynol, ar gael i bob rhiant. | |
| **3ii** | **DEILIAID ALLWEDDI'R YSGOL:** | | |
| | Roedd rhestr o ddeiliaid allweddi'r ysgol eisoes ar gael i'r Pennaeth. **PENDERFYNWYD** nodi nad oedd unrhyw newid i'r manylion. | | |
| **4** | **HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:** | | |
| | Hysbysodd y Clerc yr Aelodau fod Fforwm Llywodraethwyr tymhorol wedi'i gynnal ar 23 Hydref.<br>PENDERFYNWYD nodi bod y Cadeirydd wedi cwblhau hyfforddiant Awtistiaeth. | | |
| **5i** | **POLISÏAU – POLISÏAU STATUDOL (Dilyn Amserlen yr ALl):** | | |
| | **I adolygu'n flynyddol:**<br>1. Cydraddoldeb | | |

| Cofnod o Drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| | 2. Iechyd a Diogelwch / Archwilio<br>3. Cyflog<br>4. Diogelu<br>5. Gwisg Ysgol<br>**I'w adolygu os bydd newidiadau wedi digwydd:**<br>1. Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>2. Codi Tâl<br>3. Cwricwlwm<br>4. Diogelu Data<br>5. Rheoli Perfformiad<br>6. Disgyblu Disgyblion a Gwrth-fwlio – *adolygu gyda mewnbwn wrth y Cyngor Ysgol*<br>7. Cwynion<br>**PENDERFYNWYD** mabwysiadu:<br>Polisi Gwisg Ysgol<br>Polisi Atal | | |
| **5ii** | **POLISI DERBYN 2025-2026:** | | |
| | Roedd copi o'r polisi wedi cael ei uwch lwytho i Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi.<br>Cadarnhau capasiti'r ysgol fel 127<br>Cadarnhau rhif derbyn yr ysgol fel 18. | | |
| **5iii** | **CYTUNDEB PARTNERIAETH 2024-2027** | | |
| | Roedd copi o'r cytundeb eisoes ar gael i'r Aelodau. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r ddogfen. | | |
| **6** | **UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:** | | |
| | a) | Byddai'r Aelodau'n trafod eu hymateb i Ymgynghoriad Adolygiad Ysgolion yr ALl yn dilyn y cyfarfod. | |
| | b) | Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb ar eu gwaith caled yn ystod arolygiad diweddar Estyn. | |
| | c) | Nodwyd bod Mrs Jen Jones wedi ymddeol fel cogydd yr ysgol. Diolchwyd iddi am ei blynyddoedd o ymrwymiad i'r Ysgol a dymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol. Roedd parti llwyddiannus wedi ei gynnal yn neuadd y pentref i ddathlu.<br>Roedd Natalie Evans wedi ei phenodi'n staff cegin. | |
| **7** | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:** | | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai cyfarfod hybrid nesaf y Corff Llywodraethu | | |

| Cofnod o Drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | Llawn yn cael ei gynnal ar: 26.03.2025 am 4.00 pm. | |

PL - 15.11.2024

Cadeirydd: ………………………………………………. Dyddiad: ………………………………….